



Lleucu Williams



Oed: 23

Lleoliad: Blaenau Ffestiniog

Enw Busnes: Darlunwraig llawrydd

✉ lleucugwenllian@btinternet.com

Pam eich bod wedi penderfynnu sefydlu busnes?

Ers i mi fod yn blentyn roeddwn i'n gwybod fy mod i eisiau bod yn ddarlun wraig, ac mi wnes i ganolbwyntio fy addysg ar gyrraedd y nod yma - heb sylwi tan yn eithaf hwyr y byddai hyn yn golygu sefydlu busnes. Roeddwn i wedi bod yn gwneud ambell i gomisiwn llawrydd tra'r oeddwn i yn y brifysgol, ac wedi i mi raddio'r bwriad oedd parhau i weithio'n rhan amser fel darlun wraig wrth weithio mewn swydd sefydlog, nes i mi adeiladu digon o bortffolio i allu mynd yn llawrydd yn llawn amser. Pan ddaeth y pandemig, roedd contract fy swydd newydd ddod i ben a doeddwn i ddim yn meddwl y byddwn i'n gallu gweithio am gyfnod, ond roeddwn i'n ffodus i gael cynnig sawl prosiect llawrydd yn dechrau'r pandemig ac o'r gwaith yna cefais mwy o cyfleoedd i weithio efo gwahanol gleientiaid. Wedi hynny roedd y penderfyniad i sefydlu fy hun fel darlun wraig llawn amser yn dilyn yn eithaf naturiol.

Sut mae Llwyddo'n Lleol/Amser i Fentro wedi eich helpu i ddatblygu?

Roedd cymryd rhan yn Llwyddo'n Lleol yn wych gan mai yn ddiweddar iawn oeddwn i wedi dechrau yn llawn amser - heb anogaeth gan y tîm ni fyswn i wedi gallu magu'r plwc i hyrwyddo fy hun yn yr un modd, ac roedd gwybod fod criw o bobl ifanc yn yr un cwch a fi yn rhoi hwb pan oeddwn i'n colli brwdfrydedd. Roedd o'n grêt i gael clywed hanesion busnesau lleol eraill yn ystod y sesiynau, ac i allu gofyn am gyngor am bynciau mwy ymarferol fel trethi.

Beth yw eich gobeithion i'r busnes wrth symud ymlaen?

Fy ngobaith ar gyfer y busnes wrth symud ymlaen ydi dal ymlaen efo'r momentwm sydd gen i ar y funud. Dwi'n gobeithio parhau i weithio ar brosiectau gwahanol efo gwahanol gleientiaid drwy Gymry, yn ogystal â cheisio cysylltu â mwy o gwmnïau Saesneg, megis cyhoeddwyr llyfrau plant a chylchgronau. Mi fyswn i hefyd yn hoffi manteisio ar fy sgiliau iaith drwy gysylltu efo cwmnïau yn Ffrainc neu Sbaen, a pharhau i archwilio gwahanol bosibiliadau darlunio drwy waith fel murluniau, animeiddio ayyb.

Pe bai gennych un frawddeg i ddweud wrth berosn ifanc arall sy'n meddwl dechra busnes, be fysa'r frawddeg honno?

Os wyt ti'n angerddol am rywbeth, paid â bod ofn mynd amdani - Mae'n cymryd amser hir i deimlo fel bod yr holl waith caled wedi talu i ffwrdd, ond does 'na ddim byd yn cymharu i sylwi mwyaf sydyn dy fod di rwan yn gwneud bywoliaeth o rywbeth ti'n caru!

@studio.lleucu

